Gair bach Bethlehem 41

www.bethlehem.cymru (trydar) @GweBethlehem Gwaelod-y-garth – rhif 41 (Mai 2023)
(Arbedwch inc a phapur! Peidiwch ag argraffu hwn – dim ond ei ddarllen ar-lein.)

MIS O DDATHLU

Prin fod angen eich atgoffa ein bod ar drothwy dathlu 150 o flynyddoedd o addoli ym Methlehem, Gwaelod-y-Garth. Mae'r pedwar Sul ym Mehefin wedi'u trefnu fel hyn:

A hanes hwn

Mehefin 4
10.30 y bore
Oedfa'r Dathlu a Chymundeb
dan arweiniad
Delwyn Sion

Mehefin 11
5.00 y pnawn
Cymanfa Ganu'r Dathlu
dan arweiniad
Eilir Owen Griffiths

TŶ CWRDD BETHLEHEM 150

Mehefin 18
10.30 y bore
Oedfa'r Dathlu
dan arweiniad
Yr Ysgol Sul

Mehefin 25
10.30 y bore
Oedfa'r Dathlu
dan arweiniad
Y Parchedig Ddr.
R Alun Evans

Rhifyn cymharol fyr o ran erthyglau y tro hwn. gan y bwriadwn grynhoi'r uchod ymhen y mis.
*Y dechrau *** Newyddion *** Oedfaon diweddar *** lluniau, lluniau, lluniau!*
A diolch iAlwyn Harding Jones am y 'logo'r dathlu"

Anthony a Rhys yn Dathlu'r 150

Ychydig wythnosau yn ôl awgrymwyd wrth Anthony Evans tybed a fyddai cael llun gwreiddiol o'r capel fel rhan o ddathliadau 150 mlwydd oed yr adeilad yn rhywbeth y dylid ei ystyried.
Cyn pen dim o amser 'roedd wedi cytuno a'r awgrym, ond 'roedd yn ogystal am roi cyfle i'r aelodau fynegi mewn geiriau yr hyn y dymunent ei weld ar gynfas, ac a fyddai yn deilwng o'r capel heddiw.
Yn dilyn apêl, cyflwynwyd nifer o ddyfyniadau a dywediadau i'w hystyried ganddo, ond yr un a wnaeth fwyaf o argraff arno oedd yr englyn canlynol a luniwyd gan Rhys Powys:-

Tŷ Cwrdd Bethlehem yn 150
Yn y Gwaelod, gyda'n gilydd - y down
I Dŷ llawn llawenydd.
Hafan ddiffwdan ein ffydd;
Manna yng nghysgod mynydd.

Bu Anthony yn brysur yn plethu'r englyn gyda'i weledigaeth greadigol ei hun o'r Bethlehem cyfoes, a dyma i chwi gip arno, gyda'r artist ei hun yn mynegi ei fodlonrwydd amlwg a'r gwaith gorffenedig.
Ar ei awgrym ef, mae'n fwriad ganddo greu printiadau (nifer cyfyngedig yn unig) o'r lithograff gwreiddiol, ac fe fydd modd prynu copi i'w fframio fel cofrodd o'r achlysur pwysig yma yn hanes y capel. Bydd llofnod yr artist a'r bardd fel ei gilydd ar y print.
Mae'n diolch i Anthony a Rhys, (a phawb arall ohonoch a gyflwynodd eiriau i'w hystyried ar gyfer y comisiwn), a gobeithiwn y bydd gwerthfawrogiad twymgalon o'r cyfanwaith yn ystod y mis o ddathlu sydd ar ein gwarthaf.

RhGJ

Dathlu'r 150 – Y Cwrdd Merched

Mae'r Cwrdd Merched yn awyddus i baratoi te a choffi i ddilyn pob un o oedfaon dathlu mis Mehefin!

Bydd angen gwirfoddolwyr ar gyfer y 4 gwasanaeth i weini'r te a dod â dwsin o gacennau bach neu bisgedi.

Bydd taflen yn y cyntedd sy'n esbonio popeth a gofod i'r rhai sy'n fodlon helpu i sgrifennu eu henwau.

Ann Passmore.

Yn y dechreuad...

(o rifyn Mai 'Tafod Elai – gyda'r dyfyniadau gwreiddiol gyda'r hen sillafiadau!)

Fel y nodir ar ein tudalen gyntaf o'r Gair Bach, yn ystod mis Mehefin eleni mae Bethlehem, Gwaelod-y-garth, yn dathlu 150 mlynedd ers agor yr adeilad presennol.

Er cofiwch mai nid dyna lle y dechreuodd yr achos - fe ŵyr rhai ohonoch fod y Bethlehem gwreiddiol yn dal i sefyll ar y safle lle 'i codwyd gyntaf ar waelod Rhiw'r Ceiliog [School Lane]) yn 1832.

Yr hen Fethlehem, Rhiw'r Ceiliog

Cyn adeiladu y capel gwreiddiol, 'roedd amryw o drigolion y cylch yn aelodau yng Nghapel Taihirion, ger Rhydlafar, ond gan eu bod yn byw yn agos at eu gwaith – llawer ohonynt ger "*gwaith haiarn Pentyrch*" – "'*roeddent yn cadw cyfarfodydd gweddio, Ysgolion Sabbothol, cyfeillachau crefyddol, a phregethu achlysurol, mewn anedd-dai er y flwyddyn 1820, os nad cyn hynny.*"

Mae'n sicr i Ddiwygiad nerthol drwy Forgannwg yn 1829-30 fod yn "*ysgogiad i griw o rhyw 12-15 benderfynnu adeiladu y capel yng Ngwaelod-y-garth, a chafodd pedwar-ar-ddeg o aelodau ollyngdod o'r Taihirion i ddyfod yma i ymffurfio yn eglwys. Darfu i rai o aelodau y Groeswen, a gyfaneddent yn yr ardal, ymuno a hwy.*"

Yng nghylchgrawn "Yr Efangylydd", rhifyn Ebrill 1832, y ceir yr hanes yma am agor y Bethlehem gwreiddiol:-

"*Ar y trydydd a'r pedwerydd o Fawrth 1832 agorwyd addoldy newydd perthynnol i'r Annibynwyr a elwir Bethlehem wrth 'Forge' Pentyrch….y mae'r Bethlehem hwn yn gangen o'r Taihirion ac i fod dan ofal gweinidogaethol D(avid) Jones. Mae'r Deml hon yn adeilad hardd a chyfleus i addoli, a chan ei bod wedi ei hadeiladu mewn ardal lluosog ei thrigolion, gobeithio y caiff llaweroedd les tragwyddol yn y Deml newydd*."

O nodiadau (di-enw) oedd ym meddiant y diweddar Barchedig Rhys Tudur, cyn-weinidog y capel (1974 – 1984), ceir y sylwadau canlynol:-

"*Ymhen ychydig gyda blwyddyn wedi agoriad y capel, darfu Mr David Jones ei gysylltiad a'r ddau le, a symydodd i ardal Abertawe, ac yn fuan wedi hynny cymerodd ofal yr eglwys yng Nghlydach.*

Dilynwyd ef yn y Taihirion a Bethlehem gan Mr John Lewis yn nechrau y flwyddyn 1834, a bu yma hyd ddechrau 1837.

Yn niwedd yr un flwyddyn, urddiwyd Mr David Davies i fod yn weinidog yn y Taihirion ac yma, ond darfu ei gysylltiad ef a'r ddau le yn gynnar yn y flwyddyn 1838. Wedi hynny buwyd yn agos ddwy flynedd yn byw ar weinidogaeth achlysurol.

Yn nechrau 1840, urddwyd Mr Lemuel Smith i weinidogaethu yn y Taihirion a Bethlehem. Wedi dwy flynedd o lafur llwyddianus bu farw y gweinidog ifanc a gobeithiol hwn.

Wedi marwolaeth Mr Smith rhoddodd eglwys Bethlehem ei hun dan ofal Mr John Jones, mewn cysylltiad a'r Rhydri, a than ei ofal ef y mae wedi bod ers deng mlynedd ar hugain bellach, a'r achos wedi ychwanegu nerth mawr yn nhymor ei weinidogaeth. Cafodd y capel ei helaethu ddwywaith yn y tymor hwn, ac y mae yn fwriad yn bresennol i adeiladu capel helaethach a phrydferthach….. Mae yma yn awr eglwys gymharol lluosog a chref iawn, wrth ystyried fod eglwysi o'r un enwad yn agos iddi ym mhob cyfeiriad. Nid ydym yn gwybod am ddim nodedig a gymerodd le yn hanes yr eglwys hon amgen iddi gael ei bendithion a mesur helaeth o'r adfywiad grymus a deimlwyd yn y rhan fwyaf o eglwysi Cymru yn 1859 a'r flwyddyn ganlynol."

Dechreuwyd ar y gwaith o adeiladu'r Bethlehem presennol yn 1872, ond yn drist iawn ni chafodd Mr John Jones weld cwblhau'r adeilad.

(parhad ar y dudalen nesaf)

"'Roedd John Jones yn fab i Mr Methusalem Jones, gweinidog yr eglwys ym Methesda, Merthyr Tydfyl. Fe'i ganwyd yn 1813, a dechreuodd bregethu yn 1831. Priododd yn ifanc, gan amddifadu ei hun o "fanteision addysg ragbaratoawl" ond "tyfodd i fod yn bregethwr grymus, poblogaidd a defnyddiol iawn". Urddwyd ef yn weinidog ar gapel bychan Ebenezer yn y Rhydri ar ddydd Mawrth y Pasg 1838, ac fe ymhelaethodd ei ofal i gynnwys Bethlehem yn 1842. Gwasanaethodd y ddwy eglwys tan 1866, pryd y rhoddodd ofal Rhydri i fyny, ac y cyfyngodd ei lafur i Fethlehem, a'r gangen a ffurfiesid ganddo yn Nhongwynlais. Tua dwy flynedd cyn ei farwolaeth bu mewn enbydrwydd mawr am ei fywyd trwy i un o waedlestri yr ysgyfaint dorri. Gwellhaodd ychydig ar ôl hynny, ond ni allodd bregethu nemawr o'r pryd hwnnw hyd derfyn ei oes. Bu farw wedi hir nychdod ar Fehefin 14, 1872, a chladdwyd ef ym mynwent y Groeswen. Cafodd Mr a Mrs Jones fagu deg o blant…a dau ohonynt, sef David a Methusalem yn weinidogion yr efengyl.
Yr oedd Mr Jones yn ddyn mwy ei gorff na'r cyffredin, ac yn nodedig o luniaidd a chadarn ei ymddangosiad. Yr oedd ganddo lais llawn, mwyn, ac effeithiol iawn. Llefarai bob amser yn y cywair lleddf, ac felly yr oedd ei sŵn yn gyfaddas iawn i doddi teimladau ei wrandawyr."

Bethlehem heddiw

A dyna ddod a ni yn daclus at ddechrau ar yr addoli yn yr adeilad presennol, a rhag i'r rhai craff ohonoch gymeryd cipolwg ar y garreg sydd ar dalcen y Capel a sôn mai 1872 sydd ar y garreg yn y fan honno, a'ch bod chi felly flwyddyn ar ei hol hi yn dathlu, dyma'r adroddiad o "Y Tyst a'r Dydd" - 13 Mehefin 1873.

"Agoriad Bethlehem, Pentyrch:

Mae y Bethlehem hwn wedi ei adeiladu mewn man hyfryd iawn – llawer gwell ma na'r un y safai yr hen gapel arno. Llwch, baw, a sŵn peirianau oedd oddiamgylch yr hen gapel, ond coed prydferth, a sŵn adar y nefoedd yn canu oddirhwng eu cangau sydd yn amgylchynu y newydd. Capel trymaidd ac anghyfleus oedd yr hen, ond capel ysgafn a gwir gyfleus yw y newydd.

Adeiladwyd yr hen gapel fwy na ddeugain mlynedd yn ôl, a chafodd ei helaethu ddwy waith.

Nid oes ond rhyw bedwar yn fyw heddiw o'r rhai a ddechreuent yr achos ym Mhentyrch, sef J Russell, George Pike, Thomas Powell a'r Parch. W Russell, Tongwynlais.

Cymerodd yr agoriad le dydd Sabboth a Llun y 1af a'r 2il cyfisol.

Yr oedd y cynulliad yn anarferol o fawrion trwy y dydd, a'r awel ddwyfol yn esmwyth chwythu trwy bob peth, nes ei gwneud yn hyfryd iawn i fod yn bresennol.

Cynllunydd y Capel newydd oedd un W Evans, Eglwys Newydd, a'r adeiladydd oedd Mr Williams, Bronll(w)yn Villa (?), ac yn wir , mae'r gwaith yn anrhydedd i Mr Williams. Gwyddom o'r blaen fod Mr Williams yn weithiwr cryf a da, ond ni ddeallais o'r blaen ei fod yn meddu ar gystal taste. Yr oeddwn yn synnu clywed fod capel mor rhagorol wedi ei adeiladu mor rhad, yn enwedig wrth ystyried y pris sydd ar bod peth yn awr. Costiodd y cwbl £847 6s 10c. Casglwyd cyn, ac yn yr agoriad £271 14s 11 a 1/2c, ac felly mae yn aros £575 11s 10 a 1/2c, ond beth yw hynny rhwng cynifer?

...Arhosed y gogoniant gyda'r eglwys barchus yn y Bethlehem newydd, a llawer o bechaduriaid gaiff deimlo'r nerthoedd dwyfol yn y babell hardd hon. [JM]"

NEWYDDION BETHLEHEM

Priodas Gruff a Gemma

Yn ystod cyfnod y Pasg eleni fe briododd Gruffydd John (mab Mair a Dylan John) a Gemma Alcock lawr ym Mro Gŵyr. Mae Gemma yn dod o Gastell Nedd ond yn addysgu nawr ym Mhontypridd a'r ddau wedi ymgartrefu yn ardal Treganna. Roedd yn ddiwrnod perffaith, ar wahân i'r ffaith fod Megan (sef wyres Mair a Dylan, a hefyd Gwyn a Marian Roberts), wedi cael brech yr ieir a wedi methu bod yno – gobeithio daw cyfle eto iddi wisgo ei gwisg tywysoges.

Dwy Briodas Aur

Llongyfarchiadau i'r canlynol sydd wedi dathlu eu priodas aur yn ddiweddar:

Judith a Ken Evans, Pentyrch – briodwyd yng nghapel Y Tabernacl, Caerdydd, ar Ebrill 25, 1973.

Meira a Wynford Ellis Owen, Creigiau. Bu'r briodas yng Nghapel Cesarea, yn Sir Gaernarfon, ar Ebrill 23, 1973.

Delyth yn gwella

Da deall fod Delyth Evans, Y Barri, yn gwella wedi ei thriniaeth lawfeddygol. Fis wedi'r driniaeth, mae hi nôl yn cerdded ac wedi dechrau gyrru. Edrychwn ymlaen at ei chroesawu yn ôl i'n plith cyn hir ym Methlehem.

CYDYMDEIMLO

Rydyn ni'n anfon ein cofion at ddwy o'n cyd-aelodau sydd wedi colli anwyliaid yn ddiweddar:

***Ann Passmore,** Radur - bu farw chwaer i Ann, sef Elinor Trigg, yn ddiweddar. Roedd Elinor ar un adeg yn cyd-addoli gyda ni ym Methlehem*

***Meira Ellis Owen**, Creigiau – bu farw brawd i Meira, Hugh Owen, yng Nghaernarfon.*

CROESO I IESTYN GLYN

Yn ein rhifyn diwethaf, doedd dim enw wedi ei gyhoeddi ar gyfer plentyn diweddaraf Ifan Glyn a Rosanna. Braf cael cofnodi mai Iestyn Teifi Glyn ydi'r enw - brawd bach i Besi Ann a Morus Ifan yng Ngwaelod y Garth.

Pen-blwydd hapus!

Mae **Arwel Ellis Owen, Creigiau,** bellach wedi cyrraedd ei 80 mlwydd oed – llongyfarchiadau iddo!

Ddeg mlynedd yn iau na'r uchod – dymuniadau gorau ar gyrraedd 70 i **Marian Roberts, Rhydlafar** *(ar y chwith).*

Eirlys yn y ffrynt!

Tybed glywsoch chi'r sgwrs ar Radio Cymru rhwng Gareth Glyn ac Alun Thomas y Sul o'r blaen, am y ddwy LP recordiwyd yn Neuadd Albert, Llundain. Difyr deall fod yna o leiaf un ein mysg, Eirlys Davies, Danescourt, ymhlith y cantorion yn y ddau recordiad (1963 & 1965). Mae hi yn y rhes flaen ar un o'r cloriau, yn un a faged yn Llundain ac yn aelod o un o gapeli'r brifddinas.



Delwyn ar daith

Tŷ Cwrdd a Thŷ Coffi

Dwi ac Ann a Meilir newydd ddychwelyd “o Vienna” (fel canodd Ultravox nôl yn yr 80au.) Vienna - dinas hardd, yn llawn celfyddyd a cherddoriaeth, amgueddfeydd, tai coffi, gerddi a galerïau, tai coffi, eglwysi, tai coffi ….oedd, roedd lot o dai coffi, ac ma’ nhw yno ers canrifoedd, yn arwydd o gyfoeth y ddinas, ac o dan yr Hapsburgs roedd Vienna yn fwy na jesd “un” o brif brifddinasoedd Ewrop, Vienna oedd ar y brig!

OND, oes, ma’ na “ond”, wrth fwynhau fy nghoffi Vien Melange mewn tŷ coffi lle ’roedd Beethoven wedi bod, a Freud wedi breuddwydio am gael o leia’ un teisen siocled arall, fe ddysgais bod Banciau’r ddinas wedi mynd i’r wal - na, nid y diwrnod hwnnw !!! ond union ganrif a hanner yn ôl, ym 1873. Arweiniodd at ddirwasgiad mawr ar draws Ewrop. Daeth diwedd ar y cwrdd i gael coffi, ac aeth Vienna o’r top … i’r gwaelod !!!

OND, yng nghysgod y Garth ym 1873, fe aeth ‘na gapel oedd yn y Gwaelod, lan i’r top !!! Do, fe agorwyd drysau’n Tŷ Cwrdd ni, Bethlehem, yn ei safle presennol, a dros y mis nesa fe gawn ni gyfle i gofio’r achlysur hanesyddol hwnnw. Bydd yr oedfaon yn cynnwys hanes y gweinidogion a fu, atgofion am yr Ysgol Sul a Caib, a Chymanfa. Mis o ddathlu, mis o lawenhau, a phwy â ŵyr, falle, cyfle i rannu atgof neu ddau dros goffi o Fienna’n y festri.

Joiwch!

Delwyn.

Diolch i Alwyn Harding Jones am y logo hwn ar gyfer …

TŶ CWRDD BETHLEHEM 150

… y Dathlu Mawr

Oedfaon Bethlehem sydd ar YouTube **Lluniau rhai o'n Suliau diweddar**

Aelodau Ffynnon Taf, Gwaelod-y-Garth a'r cylch

Hon oedd oedfa bore Sul, Mawrth 26ain. Mae hi'n dal ar YouTube: https://youtu.be/4HM1RtDzM0Y/ (fel y rhan fwyaf o'n hoedfaon, diolch i Wyn Jones a'r dechnoleg.)

Rhagor o Oedfaon Bethlehem **Lluniau rhai o'n Suliau diweddar**

Oedfa'r Coronau, y capiau a'r hetiau

Ebrill 23 oedd hi, pan fu i Arwel ddewis "Coroni" fel ei thema. Mae'r oedfa i'w chael ar YouTube: https://youtu.be/wprO53Buua4

Fel arfer, mae modd i chi hefyd weld yr oedfaon ar wefan y capel sef: http://bethlehem.cymru

Gyda llaw, mae oedfa Arwel bellach wedi cyrraedd cynulledifa ym Meirionnydd! Daeth galwad ffôn gan aelod o gapel yn Nhywyn, yn gofyn yn garedig a fyddai'n iawn iddyn nhw ddefnyddio'r oedfa honno i'w haelodau. Er mai'r "Coroni" oedd thema'r oedfa, ni setlwyd ar unrhyw "royalties" am y darllediad!

Rhagor o Oedfaon Bethlehem **Oedfa gyntaf mis Mai**

Oedfa'r 'Heulwen dan Gymylau'

Ar Fai 7fed, hoff fis Dafydd ap Gwilym a mis "Na ad fi'n angof", y blodyn sy'n cael ei gysylltu â dementia. Roedden ni ar drothwy Wythnos Gweithredu ar ran Dementia ac felly fe ddewisodd Delwyn seilio'r gwasanaeth ar ran o'r gyfrol "Heulwen dan Gymylau" y bu R Alun Evans, Rhodri-Gwynn Jones ac Emlyn Davies (Efail Isaf) ynghlwm wrth ei darparu'r fel adnodd ar gyfer eglwysi drwy Gymru gyfan.
Wrth edrych ar rai o'r lluniau isod, prin fod raid egluro mai "Dwylo" oedd y thema...

Mae'r oedfa hon i'w chael dim ond dilyn y ddolen hon: https://youtu.be/s5usgOxdJlw

A dwy arall... **Oedfa olaf Ebrill ac olaf Mai**

Oedfaon Jeff a Huw

Mae oedfa'r Parchedig Jeff Williams (isod) ar Ebrill 30 – hefyd ar gael – fan hyn: https://youtu.be/lJbzChQKbRs

A hefyd ar 28.05.23, sef oedfa olaf mis Mai, dan arweiniad un o'n diaconiaid ni, **Huw Lloyd** – ar gael fan hyn: https://youtu.be/0DPq1rkaL5E

Cofiwch ...

Y Dathlu Mawr

Oedfaon cyfnod Y Pasg

Mae **Oedfa Sul Y Blodau**, gyda'r Parchedig Gethin Rhys i'w chael fan hyn: https://youtu.be/wPSll6sVZnQ

Yn ystod yr oedfa, bu Gethin yn rhannu croesau palmwydd o Balesteina - i'r gynulleidfa fynd a nhw adre a'i rhoi rywle yn y tŷ lle mae pawb yn eu gweld, ac i'n hatgoffa o daith yr Iesu i Jerwsalem. Mae rhai eglwysi, Catholig ac Anglicanaidd, yn cadw'r groes hyd at ddydd Mercher Lludw y flwyddyn ganlynol. "A beth ydy'r lludw ar ddydd Mercher lludw? Y croesau yma wedi eu llosgi... Ffordd syml o gofio'r wythnos arbennig hon".
(Roedd Gethin wedi prynu rhain ers 2020 – cyn y pandemig – a hwn oedd y cyfle cyntaf iddo gael i'w defnyddio ers hynny!)

Ar fore Gwener y Groglith, **Y Parchedig Ddr R Alun Evans** a rhai o'r aelodau fu'n cymryd rhan. Ymddiheuriadau nad oes llun o John Ifans – fe lefarodd John y tu ôl i'r camera! Ond mae ei lais i'w glywed yn y darllediad, fan hyn: https://youtu.be/azeeYxMczDU



Ac yna, ar Ebrill 9fed, sef **Bore Sul y Pasg,** Delwyn Sion oedd yn arwain yr oedfa– gyda Tania wrth yr organ. Mae'r oedfa hon hefyd ar gof a chadw, fan hyn: https://youtu.be/EEDFGt8pAgg



O ardd Gethsemane i'r Bedd Gwag

Oedfa'r Ysgol Sul

Lluniau rhai o'n Suliau diweddar

Oedfa Cymorth Cristnogol



Trowch i'r dudalen nesaf i weld sut bu i'r tŵr dyfu!

Oedfa Cymorth Cristnogol
(parhad)

Diolch i Heulwen, plant a ieuenctid yr Ysgol Sul, eu rhieni a'r athrawon am eu gwaith – y tro hwn a thrwy'r flwyddyn gron.
Fel yr oedfaon eraill, mae hon yn dal ar YouTube – ewch i: https://youtu.be/MsdNgtxgBK4

Oedfa Aelodau Gorllewin Caerdydd

Ydy, mae hon hefyd i'w chael yn gyfan drwy ddilyn y ddolen hon: https://youtu.be/b2rB4fso5qA

Aelodau Gorllewin Caerdydd a'u cyfeillion, wedi eu cyd-lynu gan Margaret Cartrwright, oedd yn cyflwyno'r oedfa arbennig i ni bore Sul diwethaf. (Ond gair o rybudd – peidiwch derbyn pob cynnig o siocled "Malteser" gan Rhys Powys!)



A dyna ni ... am y tro! Bydd rhifyn nesaf o'r Gair Bach yn dod wedi'r

Mis o Ddathlu

(Croeso i chi anfon cyfraniad, yn llun neu air at: Ifan Roberts – tycnau@aol.com 07761826977)